RUMSEY, WALTER (1584 - 1660), barnwr

Enw: Walter Rumsey
Dyddiad geni: 1584
Dyddiad marw: 1660
Rhiant: Anne Rumsey (née David)
Rhiant: John Rumsey
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: barnwr
Maes gweithgaredd: Cyfraith
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Llanofer yn 1584 yn fab i John Rumsey a'i wraig Anne (David). Aeth i Gloucester Hall (Coleg Worcester heddiw), Rhydychen, yn 1600, ac i Gray's Inn (lle y codwyd ef wedyn, 1631, yn ' Bencher') yn 1603; galwyd ef i'r Bar yn 1608, a gwnaeth arian mawr. Yn 1631 penodwyd ef yn farnwr ar y gylchdaith dde-ddwyreiniol yn y Sesiwn Fawr; yr oedd yn aelod seneddol dros sir Fynwy yn y Senedd Fer, 1640. Ochrodd gyda'r brenin yn y Rhyfel Cartref; carcharwyd ef pan gwympodd tref Henffordd fis Rhagfyr 1645; a chollodd ei le fel barnwr yn 1647. Yn 1660, penodwyd ef yn geidwad seliau'r llys yn ei hen gylchdaith, ond bu farw cyn diwedd y flwyddyn, yn 76 oed, a chladdwyd ym meddrod ei deulu yn Llanofer. Ymddiddorai mewn cerddoriaeth, impio coedydd, a llunio pysgodlynnoedd; a chyhoeddodd yn 1657 *Organon Salutis* (a aeth i dri argraffiad), ar iechyd, yn disgrifio dyfais i lanhau'r gwddf o'r tu fewn, gyda sylwadau ar dybaco a choffi.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

W. R. Williams, *The history of the Great Sessions in Wales, 1542-1830, together with the lives of the Welsh judges* (Brecknock 1899), 132-3

Am ei deulu (yn wreiddiol o Romsey, Hants) gweler yr ach yn Theophilus Jones, Edwin Davies, Joseph Russell Bailey, *History of the County of Brecknock*, iii, 176-8; iv, 258-9

(a'r fynegai)

hwy unwaith bioedd y naill ran o stad Gwern-vale, Cerrig-hywel - gweler yr ysgrif ar deulu Proger, a bioedd y rhan arall o'r stad honno

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 37266426

Wikidata: Q16863621

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Jenkins, R. T., (1953). RUMSEY, WALTER (1584 - 1660), barnwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-RUMS-WAL-1584

Copïo'r cliprwydd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government